RhannuCeirCaerdydd.com

CYLCHLYTHYR

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 2000 Rhifyn 4

Gaeaf 2008

EITEMAU ARBENNIG:

• Gwnewch newid bychan i'ch teithiau beunyddiol

• Eitemau Aelodau

•Newid Dulliau Teithio – Seiclo a Cherdded

•Safle ar ei Newydd Wedd

Croeso i Gylchlythyr y Gaeaf ar gyfer RhannuCeirCaerdydd.com

Mae Rhannu Ceir Caerdydd yn gynllun Rhannu Siwrne cwbl ddwyieithog sy'n darparu ffordd rwydd a diogel i aelodau ddod o hyd i gydymaith teithio. Mae Rhannu Siwrne yn rhywbeth y gall pawb ei wneud o leiaf unwaith yr wythnos. Gall helpu i arbed arian a gwella eich ffitrwydd os byddwch yn defnyddio ffordd actif o deithio. Mae'r cynllun wedi bod mewn grym ers 2004 ac wedi cynyddu o ran maint, sy'n golygu bod mwy o gyfle i chi ddod o hyd i gydymaith! Mae gennym dros 700 o aelodau bellach a 15 o grwpiau rhannu actif.

Poster Rhannu Siwrne Newydd
Edrychwch allan am y poster newydd ar gyfer Rhannu Siwrne.

Allwch chi helpu i gynyddu maint grŵp rhannu ceir eich sefydliad chi?

Ceisiwch rannu unwaith yr wythnos!
Mae Cyngor Caerdydd yn annog ei weithwyr, a phobl sy'n gweithio i fusnesau yng nghanol y ddinas, i deithio'n gynaliadwy – gall unwaith yr wythnos wneud gwahaniaeth! Mae Swyddog Cynllunio Teithio'r Cyngor yn ymweld â sefydliadau'n rheolaidd i hyrwyddo Cynllunio Teithio a chyflwyno'r Cysyniad o Rannu Siwrne fel ffordd o helpu I leihau tagfeydd a gwella'r amgylchedd lleol. Mae gan Gaerdydd dros 70,000 o gerbydau'n cymudo yn y Sir bob dydd, ac mae nifer helaeth o'r rhain yn cynnwys un person yn unig. Gallwch wneud eich rhan drwy annog cydweithwyr a chyd-fyfyrwyr i gofrestru ar y cynllun. Cofiwch, gallwch ddewis rhannu â phobl o'ch sefydliad eich hun, neu ag aelodau o sefydliadau eraill, ar RhannuCeirCaerdydd . Ticiwch y bocs yn eich dewislen bersonol.

Wrth iddi ddod yn Wanwyn, efallai y daw cydymaith rhannu car yn gydymaith seiclo neu gerdded – y ffordd berffaith o gadw'n heini yr haf hwn!

Newyddion UWIC

Mae cynllun Rhannu Siwrne UWIC yn cynyddu'n gyflym. Mae'r cynllun myfyrwyr yn arbennig o actif ac mae UWIC yn annog ei holl fyfyrwyr i gofrestru ei holl fyfyrwyr i gofrestru ar y cynllun os nad yw dulliau teithio eraill yn opsiwn.

Mae UWIC wedi cyflwyno car pŵl hefyd yn ddiweddar, (cerbyd hybrid Toyota Prius) i staff deithio rhwng campysau. Bydd hyn yn caniatáu staff i ddewis teithio i'r gwaith â dulliau mwy cynaliadwy gan barhau i symud rhwng safleoedd yn rhwydd. Mae hyn yn ogystal â darparu tocynnau bws rhwng safleoedd i staff a chyflwyno cynllun peilot ar gyfer cynnal cynadleddau rhwng campysau trwy gamerâu ac i allu cynnal cyfarfodydd o bell, gan gael gwared â'r angen i deithio rhwng campysau.

Newyddion Asiantaeth

Mae Asiantaeth yr Amgylcghedd Cymru wedi gosod cyfleuster sied beiciau newydd ar y safle yn ddiweddar ac yn gweithio tuag at osod cyfleusterau ystafell gawod / sychu newydd. Rhoddwyd y mentrau hyn ar waith ar ôl gostyngiad diweddar mewn safleoedd parcio ceir ar y safle. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad gan yr Asiantaeth i wella cyfleusterau ar gyfer seiclwyr a cherddwyr ac i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio actif i deithio i'r gwaith lle bo'n bosibl. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn gweithio'n galed i annog mwy o bobl i Rannu Ceir. Adlewyrchir llwyddiant y fenter hon â'r ffaith bod mannau Rhannu Ceir yn llawn bob dydd! Mae staff hefyd yn cael eu hannog i ystyried lleoliadau cwrdd ar gyfer teithio actif a rhannu ceir yn ofalus, gan barchu effeithiau ar gymunedau lleol a sicrhau eu diogelwch eu hunain. Mae'r sefydliad hefyd yn hyrwyddo tele-gynadledda fel dull arall o gynnal cyfarfodydd.

Y Swyddog Cyfleusterau, Gwynne Morgan, tu allan i sorfa feiciau newydd yr Asiantaeth.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wedi derbyn cymeradwyaeth yn ddiweddar ar gyfer ar gyfer cynnig ar gyfer ail gam ei Raglen Teithio Actif. Bydd y cynnig llwyddiannus hwn i'r Cyngor Chwaraeon Cymru yn ariannu gwelliannau i gyfleusterau newid a chawodydd yn Neuadd y Ddinas. Bydd rhan o'r grant yn cael ei wario ar ddarparu beiciau pŵl, offer, taflenni gweithgareddau a sicrhau man parcio beiciau i weithwyr ar y safle. Bydd y cyllid hefyd yn darparu Canolfan Gwybodaeth ar Deithio i weithwyr a'r cyhoedd ei defnyddio i gynllunio eu teithio. Mae'r cyfleuster hwn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn Neuadd y Sir.

Mae prif nodau'r cynllun yn gyson â'r rheiny yn Neuadd y Sir,

i wella iechyd a lles gweithwyr a chynyddu'r defnydd o ddulliau teithio actif. Mae'r Cyngor yn gobeithio parhau â'r rhaglen i gynnwys safleoedd allweddol eraill fel rhan o'r ymgyrch i gyflwyno Cynlluniau Teithio i'w holl swyddfeydd.

Teithio yn y Gaeaf

Yn y Gaeaf mae nifer o ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth deithio. Mae'r diwrnodau'n fyrach a gall teithio yn y tywyllwch, yr oerni a'r glaw fod yn amhleserus. Cofiwch fod RhannuCeirCaerdydd yn cynnig yr opsiwn i aelodau rannu siwrne mewn car, a gall helpu'r rheiny â phroblemau parcio yn y gwaith i rannu siwrne tacsi,

neu hyd yn oed ddal y bws neu'r trên gyda'i gilydd! Ewch i'ch hafan personol a thiciwch yr opsiwn i baru siwrneiau trwy ddulliau eraill.

Newid Dulliau Teithio – Seiclo i'r Gwaith

A fyddech chi'n ystyried seiclo i'r gwaith? Mae'n ffordd ymarferol a hygyrch o deithio i'r rheiny sy'n byw hyd at 4 milltir o'u gweithle a gall gyfrannu at y 30 munud argymelledig o ymarfer corff bob dydd. Os ydych chi'n meddwl am y peth efallai yr hoffech ystyried hyfforddiant i'ch atgoffa cyn cychwyn. Gall preswylwyr Caerdydd gysylltu â Chanolfan Diogelwch y Ffyrdd Caerdydd ar Heol y Gogledd (www.roadsafety.cardiff.gov.uk neu ffoniwch 029 20619907/8) sy'n cynnal cyrsiau seiclo i oedolion. Efallai gall eich sefydliad hefyd drefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer grwpiau yn eich gweithle. Mae'r Rheolau'r Ffordd Fawr newydd hefyd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ddiweddar a chanllawiau i seiclwyr ac yn cynnwys yr holl ddarpariaethau a gofynion newydd ar gyfer seiclo. Mae hwn ar gael ar www.highwaycode.gov.uk.

Cofiwch os hoffech gydymaith seiclo ar gyfer eich siwrne dylech sicrhau eich bod yn nodi hyn ar eich dewisiadau.

Cerdded i'r Gwaith

Gall cerdded fod yn ffordd bleserus o deithio i'r gwaith, yn enwedig yn yr haf. Os ydych yn byw o fewn 2 km (1.25 milltir) i'r gwaith, gallwch gerdded i'r gwaith mewn tua 20 munud. Gall hyn losgi hyd at 200 calori a chyfrannu at wella eich ffitrwydd cyffredinol. Gorau oll byddwch yn cyrraedd y gwaith yn effro ac yn barod i gychwyn eich diwrnod. Gallwch gofrestru i ddod o hyd i gydymaith cerdded ar y Cynllun Rhannu Siwrne – ewch i'ch dewisiadau ar eich hafan.

Yn fuan!

Safle ar ei Newydd Wedd
Mae RhannuCeir Caerdydd wedi bod yn paru siwrneiau i'w aelodau ers Gorffennaf 2004. I ddathlu hyn bydd y safle'n cael ei adnewyddu ar gyfer y Gwanwyn. Bydd gennych yr un cyfleusterau ar safle diweddar sy'n cynnwys dyluniad newydd.



Mae dyluniad newydd y safle yn adlewyrchu'r gwelliannau www.keepingcardiffmoving.co.uk, sy'n darparu gwybodaeth bwysig am Strategaeth Trafnidiaeth y Cyngor i bobl sy'n byw ac ymweld â Chaerdydd.



GWYBODAETH DDEFNYDDIOL:

Gwybodaeth Diogelwch y Ffyrdd:
www.roadsafety.cardiff.gov.uk

Cwmniau Teithio Uniongyrchol:
Bws Caerdydd: www.cardiffbus.com
Trenau Arriva: www.arrivatrainswales.co.uk
Rhwydwaith Rheilffordd Cenedlaethol: www.nationalrail.co.uk (ffôn. 08457 48 49 50)

Cynllunio Teithio:
Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk (ffôn. 0871 200 22 33)

Ffynhonellau Eraill:
Dolenni Teithio y BBC :
www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel

Gwybodaeth am Gynlluniau Teithio:
Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio - e-bost: cynlluniauteithio@caerdydd.gov.uk

Gwybodaeth am Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor: www.keepingcardiffmoving.co.uk